

## (W)

# Rheoli achosion SSCE Cymru – canllawiau i ysgolion

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion y camau yn y broses rheoli achosion, yn ogystal ag awgrymiadau i ysgolion a disgwyliadau SSCE Cymru.

## Amlinelliad o'r cymorth

Bydd y cymorth hwn ar gael i ysgolion gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol o fis Ionawr 2021 ymlaen. Rydym yn cynnig y cymorth hwn i ysgolion sydd ag un plentyn y lluoedd arfog neu nifer fach iawn o blant y Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol yn gysylltiedig ag effaith eu ffordd o fyw yn y Lluoedd Arfog.

## Camau'r broses

Cam 1: Penderfynu ar y cymorth neu'r ymyrraeth fwyaf addas i'r plentyn/plant y lluoedd arfog.

Cam 2: Llenwi ffurflen wybodaeth yr ysgol a'i dychwelyd mor fuan ag sy'n bosibl.

Gofalwch eich bod yn cynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl ar y ffurflen hon. Os oes angen arweiniad neu gymorth ychwanegol arnoch i lenwi'r ffurflen, siaradwch gyda'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol.

Cam 3: Bydd tîm SSCE Cymru yn adolygu'ch achos ac yn eich hysbysu o'r canlyniad cyn pen deg diwrnod.

Cam 4: Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i gadarnhau'r manylion, sefydlu llinell amser, trafod disgwyliadau a rhannu'r broses fonitro a gwerthuso gyda chi.

Cam 5: Bydd y cymorth yn dechrau a bydd y Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd i fonitro'r cymorth a thrafod cynnydd y plentyn/plant y lluoedd arfog.

Cam 6: Unwaith y bydd yr ymyrraeth wedi gorffen, bydd disgwyl i chi lenwi ffurflen werthuso ac ystyried cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd a pharhad.

## Awgrymiadau ar gyfer cymorth

Meddyliwch yn ofalus wrth ystyried y math o gymorth sy'n fwyaf priodol i'ch plentyn/plant y lluoedd arfog. Er enghraifft, ystyriwch p'un a yw'r angen yn un academaidd ynteu'n gysylltiedig â lles. Hefyd ystyriwch pa gymorth y gellid ei chynnig yn fewnol neu'n allanol. Cofiwch bod llawer o ddewisiadau nad ydynt yn cael eu hariannu i'w hysytyried, a allai fod yn fwy ffafriol na chefnogaeth a ariennir. Oherwydd hynny, gofynnwn i chi feddwl yn eang am y math o gymorth sydd ei hangen ar eich plentyn / plant y lluoedd arfog ac ymchwilio i bob llwybr cyn penderfynu ar y dewis terfynol.

## **Disgwyliadau SSCE Cymru**

### **Olrhain cynnydd:**

Mae gofyn i ysgolion adrodd am gynnydd ddwywaith tra bo'r ymyrraeth yn digwydd (fel arfer traean o'r ffordd trwy'r broses a dau draean o'r ffordd trwy'r broses). Mae'n bosibl y bydd eich Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn ymweld â'r ysgol os oes angen hefyd. Ar ddiwedd yr ymyrraeth, bydd gofyn i'r ysgol lenwi ffurflen werthuso i asesu effaith yr ymyrraeth. Gofynnir i blant y lluoedd arfog am eu barn a'u teimladau ar ddechrau a diwedd yr ymyrraeth hefyd.

### **Ymgysylltu â SSCE Cymru:**

Disgwylir i chi ddefnyddio adnoddau ac offer SSCE Cymru i gynorthwyo Plant y Lluoedd Arfog yn eich ysgol. Dylai ysgolion hefyd ymgysylltu â'r gymuned ehangach a/neu ysgolion eraill yn yr ardal. Gofynnir i chi am hyn yn ystod y gwiriadau a bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ar y ffurflen werthuso.

### **Rhannu gwybodaeth:**

Trwy gael mynediad at y cymorth rheoli achos, rydych yn cydnabod ac yn cytuno y gall SSCE Cymru rannu manylion achosion gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill i geisio cyngor a sicrhau bod pob plentyn y lluoedd arfog yn derbyn y cymorth gorau posibl a gofal o'r safon uchaf. Gall SSCE Cymru hefyd ddefnyddio enghreifftiau a chanlyniadau o'ch ymyrraethau i ddatblygu astudiaethau achos o arferion da, a fydd yn cael eu rhannu gyda rhwydwaith SSCE Cymru. Yn yr enghreifftiau hyn, bydd pob data (gan gynnwys enwau a manylion personol plant) yn ddi-enw ac yn cael ei gadw yn gyfrinachol.

## **Cwestiynau a chanllawiau**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ar ôl darllen y ddogfen ganllawiau, mae croeso i chi gysylltu a bydd eich Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn fodlon egluro. Bydd eich Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn gallu cynnig cymorth i lenwi ffurflen wybodaeth yr ysgol, trafod ymyrraethau posibl ac esbonio'r broses olrhain/werthuso yn fanylach.

Mae SSCE Cymru yn edrych ymlaen at gydweithio â chi a chefnogi Plant y Lluoedd Arfog yn eich ysgol.

**ssce** ● SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION WALES  
**CYMRU** ● CYNORTHWYO PLANT MILWYR  
● YN YSGOLION CYMRU



**ssce** ● SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION WALES  
**CYMRU** ● CYNORTHWYO PLANT MILWYR  
● YN YSGOLION CYMRU